OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1175 (Cy.102)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd) (Diwygiadau Ynghylch Ffliw Pandemig) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*7 Mai 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Mai 2009*
Yn dod i rym - -	*8 Mai 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 121(1), 124 a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd) (Diwygiadau Ynghylch Ffliw Pandemig) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 8 Mai 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007

2.—(1) Diwygier Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007(**2**) fel a ganlyn.

(2) Mewnosoder ar ôl rheoliad 7 y rheoliad canlynol:

"**7.A.** (Cyflenwi cyffuriau os digwydd pandemig)

(1) Ni chaniateir codi ffioedd na'u hadennill o dan y Rheoliadau hyn ynglŷn â chyflenwad —

(a) a wneir—

(i) tra bydd clefyd yn bandemig, neu

(ii) wrth rag-weld bod clefyd ar ddigwydd yn bandemig

ac yn risg i iechyd dynol neu gyda'r posibilrwydd o fod yn risg i iechyd dynol; a

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2007/121 (Cy.11).